

## **CYNGOR SIR**

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn via Zoom, Dydd Mawrth, 26 Ionawr 2021 am 10.00 am.

### **YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Mabon ap Gwynfor, Jeanette Chamberlain-Jones, Ellie Chard, Ann Davies, Gareth Davies, Meirick Davies (Cadeirydd), Peter Arnold Evans, Hugh Evans, Bobby Feeley, Rachel Flynn, Tony Flynn, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Hugh Irving, Alan James (Is-Gadeirydd), Brian Jones, Tina Jones, Geraint Lloyd-Williams, Richard Mainon, Christine Marston, Barry Mellor, Melvyn Mile, Merfyn Parry, Paul Penlington, Pete Prendergast, Arwel Roberts, Anton Sampson, Peter Scott, Glenn Swingler, Andrew Thomas, Rhys Thomas, Tony Thomas, Julian Thompson-Hill, Graham Timms, Joe Welch, Cheryl Williams, Eryl Williams, Huw Williams, Emrys Wynne a/ac Mark Young

### **HEFYD YN BRESENNOL**

Prif Weithredwr (JG), Pennaeth y Gyfraith, AD a Gwasanaethau Democrataidd (GW), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a Pharth Cyhoeddus (GB), Pennaeth Cyllid ac Eiddo (SG), Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio (AS), Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol (TW), Pennaeth Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata (LG), Rheolwr AD Strategol (CR), Arbeniwr AD – Cyflogau a Dyfarniadau (SV), Prif Swyddog Digidol (BE), Rheolwr Gwasanaeth - Plant Sy'n Derbyn Gofal (RM), Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP), Gwesteiwr Zoom (RT-J) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW).

#### **1 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Brian Blakeley, Joan Butterfield, Pat Jones, Gwyneth Kensler, Bob Murray a/ac David Williams

#### **2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Datganodd y Cyngorydd Meirick Lloyd Davies gysylltiad personol yn eitem 5, Cyllideb 2021/22 – Cynigion Terfynol gan ei fod ar Fwrdd yr Awdurdod Tân.

#### **3 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Dim materion brys.

Ar y pwynt hwn, ar ran y Cyngor Llawn, gwnaeth y Cadeirydd longyfarch Ann Jones, Aelod o'r Senedd a Chyn-gyngorydd gyda Sir Ddinbych, ar ennill OBE.

Cwestiwn a ofynnwyd gan Ceri Mair Davies ar ran Cyfeillion y Ddaear Rhuthun:

“A all Cyngor Sir Ddinbych ddarparu rhestr lawn o’r holl eiddo, tir, ystafelloedd ac asedau mae Cyngorau Sir a Thref Sir Ddinbych yn berchen arnynt nhw ac sydd ar hyn o bryd yn cael eu tanddefnyddio neu heb eu meddiannu?”

A all Cyngor Sir Ddinbych amlinellu beth yn union yw’r broses a ddefnyddir wrth Drosglwyddo Asedau Cymunedol a beth yw’r cylch gwaith ar gyfer sefydliadau sy’n gymwys i wneud cais? (byddem yn hapus i dderbyn copi o’r ddogfen hon ar ôl y cyfarfod os hoffech chi ein rhoi mewn cysylltiad â’r adran a’r bobl sy’n gyfrifol am hyn)”

Dyma ymateb y Cyngorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol:

“Gellir darparu rhestr o eiddo gwag yn ein portffolio eiddo a rhestr gyfredol o eiddo gwag yn y portffolio masnachol.

Dywed ein Strategaeth Asedau na ddylid cadw unrhyw adeilad nac eiddo nad oes eu hangen at ein dibenion gweithredol neu fasnachol.

Adeiladau Cyngorau Tref a Chymuned – ni allwn ddarparu’r rhain gan nad yw’r data gennym. Mae data ar gael am asedau Cyngor Sir Ddinbych yn unig.

Tanddefnyddio o ran portffolio swyddfeydd – rydym yn ymwybodol o’r lleoliadau gwag sydd gennym ac rydym wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid. Mae’r GIG a’r Crwner yn gweithio yn Neuadd y Sir ac rydym yn y broses o symud grwpiau eraill i Neuadd y Sir hefyd. Mae’r holl adeiladau’n cael eu tanddefnyddio ar hyn o bryd oherwydd Covid a newidiadau i batrymau gwaith dros y 12 mis diwethaf. Bydd hyn cael ei ailasesu pan fyddwn yn dychwelyd i ryw fath o normalrwydd.

O ran y portffolio Masnachol, sy’n cynnwys pethau fel ffermydd ac unedau diwydiannol, mae’r rhain yn cael eu rhedeg fel eiddo masnachol sy’n creu incwm. Mae’r gyfradd feddiannu yn uchel.

Ail gwestiwn yn ymwneud â pholisïau – nid oes polisi ffurfiol wedi’i fabwysiadu ar gyfer hyn. Ymdrinnir â nhw fesul achos, gan gydweithio â Chyngorau Tref a Chymuned a grwpiau lleol. Fel arfer, bydd sefydliadau’n cysylltu â’r Cyngor i brynu eiddo. Bydd yn seiliedig ar gynllun busnes i esbonio sut defnyddir yr adeiladau, gwaith cynnal a chadw a chostau rhedeg ac fe’u gwneir fel arfer ar drosglwyddiad hirdymor.

Rydym yn mynd drwy broses gyflawn i sicrhau bod pobl wedi gwneud cais gyda chaniatâd gwaredu’r Ddeddf Llywodraeth Leol, yn ogystal â phroses fewnol i lunio penderfyniadau.

Rhoddodd y Cyngorydd Brian Jones, Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a’r Amgylchedd, ddatganiad am y llifogydd diweddar fel a ganlyn:

“Roedd y llifogydd a welwyd yn dilyn storm Christophe yr wythnos diwethaf wedi achosi llawer o ddinistr i’r rhai yr effeithiwyd arnynt a hoffem fynegi ein cydymdeimlad â’r rhai hynny sy’n cychwyn ar y daith hir i ailadeiladu eu bywydau.

Rwyf wedi ymweld â nifer o'r ardaloedd a gafodd lifogydd a'r wythnos nesaf byddaf yn ymweld ag ardaloedd gwledig a gafodd lifogydd.

Hoffwn dalu teyrnged i staff y priffyrdd a weithiodd oriau maith i baratoi ar gyfer y llifogydd ac, mewn rhai achosion, y cynghorwyr a phawb arall a fu'n ymwneud â'r gwaith.

Mae angen i ni edrych ar yr hyn y gallwn ei wneud fel awdurdod lleol a'r ffordd orau i ddiogelu cymunedau wrth symud ymlaen.

Yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor Craffu yn ddiweddar, soniwyd am gael Grŵp Tasg a Gorffen i edrych ar ardaloedd llifogydd. Rydym eisoes wedi cael cytundeb y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru yn rhan o'r Grŵp a hoffem hefyd gynnwys perchnogion y tir a'r ffermydd dan sylw, yn ogystal â chynghorwyr sir lleol perthnasol. Bydd y Grŵp hwn yn offeryn ac yn fecanwaith da.

Diolch i bawb a fu'n rhan o'r gwaith gan holl aelodau'r Cyngor Llawn."

Cwestiwn a ofynnwyd gan y Cynghorydd Emrys Wynne:

"Dros y penwythnos roedd adroddiadau yn y wasg yn dweud bod staff Cyngor Sir Ddinbych wedi derbyn brechlynnau Covid 19 er nad oeddent yn gymwys i wneud hynny. Pam na chafodd cynghorwyr wybod am hyn? Pryd ddaethoch chi'n ymwybodol o hyn?"

Arweinydd, y Cynghorydd Hugh Evans – O'm safbwynt i, ar yr achlysur hwn, ni chafodd yr wybodaeth hon ei rhannu gydag unrhyw un o aelodau'r cyngor a dim ond swyddogion a wyddai am y sefyllfa cyn i'r hanes dorri yn y wasg. Oherwydd difrifoldeb y sefyllfa, fe wnaethon ni gynnal cyfarfod arbennig o'r Cabinet nos Sul er mwyn ceisio deall beth oedd yn digwydd, a chafwyd cyfarfod arall gyda'r swyddogion fore Llun. Nid oedd yn eglur beth oedd wedi digwydd ac rydym wedi galw am ymchwiliad mewnol. Roedd tri prif reswm dros wneud hyn.

Yn gyntaf, er bod pethau'n cael eu hamlygu yn y wasg, mae angen i swyddogion ac aelodau fod yn gyfarwydd â'r holl ffeithiau cyn i ni gymryd unrhyw gamau gweithredu, ac felly nid ymateb i'r wasg yw'r ffordd orau i ddod i gasgliad.

Ail bwynt – Mae gennym staff gwych yn yr Awdurdod Lleol ac maent wedi gwneud gwaith anghredadwy drwy gydol Covid. Nid ydym am i enw da'r holl staff gael ei bardduo oherwydd gweithredoedd posibl lleiafrif bychan.

Trydydd pwynt – mae'n bwysig ein bod ni fel Awdurdod Lleol yn rhoi sicrwydd fod ein perthynas gyda'r Bwrdd Iechyd yn agored a thryloyw ac mae'n bwysig iddyn nhw fod popeth mae'r awdurdod lleol yn ei wneud yn agored a thryloyw ac ni fyddwn yn cefnogi unrhyw un sydd eisiau neidio i flaen y ciw a byddwn yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Prif Weithredwr, Judith Greenhalgh – mae Cyngor Sir Ddinbych wedi rhoi rhestr i Betsi Cadwaladr o'n staff sy'n gymwys i gael brechlyn yn unol â'r canllawiau. Anfonwyd e-bost gan y Bwrdd Iechyd (BIPBC) at y staff hynny yn eu gwahodd i wneud apwyntiad i gael brechlyn. Daeth i'r amlwg yn ddiweddar y gallai staff cymwys fod wedi anfon yr e-bost hwnnw ymlaen, a bod nam yn system BIPBC a fyddai o bosibl wedi caniatáu i staff anghymwys wneud apwyntiad am frechlyn. Pan ddaeth hyn i'n sylw, dywedwyd wrth yr holl staff i beidio ag anfon yr e-bost ymlaen ac mae ein tîm TG yn ymchwilio ar hyn o bryd i weld pa gamau gweithredu a gymerwyd gyda'r aelodau staff hynny, os o gwbl. Rydym wedi cwblhau cam cyntaf yr ymchwiliad hwnnw. Nid oes tystiolaeth o gwbl fod yr e-bost wedi cael ei rannu'n eang. Pan ddaw'r ymchwiliad i ben, os bydd tystiolaeth fod unrhyw aelodau staff wedi ymddwyn yn amhriodol, bydd camau disgyblu'n cael eu rhoi ar waith. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw dystiolaeth fod staff wedi defnyddio'r man gwan hwn. Fel y dywedodd yr Arweinydd, mae ein staff wedi gweithio'n hynod o galed yn ystod y pandemig ac rwy'n gwbl hyderus yn eu gonestrwydd ac yn uniondeb eu cymeriad. Os oes unrhyw un wedi gwneud hyn, dim ond nifer fach iawn o staff fydd hynny a byddwn yn diweddar'u'r aelodau ar ôl i'r ymchwiliad ddod i ben. Roedd y datganiad yn y wasg yn anghywir ac, ar hyn o bryd, nid ydym yn gwybod am unrhyw aelod o staff a gafodd y brechlyn pan nad oeddent yn gymwys i wneud hynny.

Gofynnodd y Cynghorydd Emrys Wynne gwestiwn atodol sef pryd ddaeth hi'n amlwg i'r swyddogion fod y sefyllfa hon o bosibl yn bodoli a phryd ddaeth hi'n amlwg fod hyn yn debygol o ymddangos yn y wasg?

Atebodd y Prif Weithredwr y daeth hi'n amlwg i ni ar 14 Ionawr 2021 fod man gwan posibl yn system apwyntiadau BIPBC, yna gwnaethom anfon e-bost at yr holl staff yn dweud nad oedd hyn yn cael ei ganiatáu a chlywodd y wasg am hynny.

#### **4 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2021.

CYNIGIODD y Cynghorydd Alan James y dylid derbyn y cofnodion, EILIWYD gan Ann Davies.

Cynhaliwyd pleidlais a chytunodd mwyafrif yr Aelodau i dderbyn y cofnodion, gydag un Aelod yn pleidleisio yn ei erbyn.

***PENDERFYNWYD bod cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2021 yn gofnod cywir.***

#### **5 CYLLIDEB 2021/2022 – CYNIGION TERFYNOL**

Ar y pwynt hwn, datganodd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies gysylltiad personol gan ei fod yn aelod o Fwrdd yr Awdurdod Tân.

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, adroddiad Cyllideb 2021-22 – Cynigion Terfynol (a ddosbarthwyd ymlaen llaw).

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r Cyngor bennu cyllideb fantoledig y gellir ei chyflawni cyn dechrau pob blwyddyn ariannol a gosod lefel Treth y Cyngor er mwyn caniatáu i filiau gael eu hanfon at breswylwyr.

Derbyniodd y Cyngor y Setliad Drafft Llywodraeth Leol ar gyfer 2021/22 ar 21 Rhagfyr ac arweiniodd at setliad cadarnhaol o +3.6% o'i gymharu â chyfartaledd Cymru sef 3.8%. Disgwylir y Setliad Terfynol ar 2 Mawrth ond mae Llywodraeth Cymru wedi nodi na fydd llawer o newidiadau o gwbl.

Fel rhan o'r setliad roedd yna 'drosglwyddiadau i mewn' o £1.280m a oedd wedi eu trosglwyddo i'r meysydd gwasanaeth perthnasol fel yn y blynyddoedd blaenorol:

- Grant Cyflog Athrawon 2020/21 - £0.135m
- Y Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol £1.145m

Mae'r cynigion terfynol i gydbwysu cyllideb 2021/22 wedi eu dangos yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn Atodiad 1. Y prif feysydd o ran twf a phwysau yw:

- Pwysau tâl o £0.870m
- Chwyddiant prisiau ac ynni £250,000
- Ardoll y Gwasanaeth Tân o £162,000
- Lwfans ar gyfer cynnydd yn y Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor o £350,000.
- Pwysau chwyddiant ysgolion yn cael eu cydnabod yn swm o £1.205m
- Buddsoddiad ysgolion mewn Anghenion Dysgu Ychwanegol £1.192m
- Buddsoddiad ysgolion yng nghynaliadwyedd ysgolion bach £161,000
- Pwysau demograffig ysgolion o £718,000
- £2.4m i gydnabod pwysau'r galw a'r rhagolygon ym maes Gwasanaethau Cymorth Cymunedol fel rhan o strategaeth hirdymor y cyngor i reoli cyllidebau gofal.
- £0.750m i gydnabod y pwysau presennol ym maes Addysg a Gwasanaethau Plant sy'n ymwneud â Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir ac Adennill.
- Mae'r pwysau o £250,000 ym maes Gwasanaethau Gwastraff wedi ei gydnabod yn seiliedig ar amcangyfrifon o bwysau yn ystod y flwyddyn.
- Effaith penderfyniadau blaenorol gan y Cyngor/Cabinet (e.e. Cynllun Llifogydd y Rhyl, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru): £0.276m
- Pwysau o £389,000 am fuddsoddi yn y Targed Di-garbon sydd ei angen er mwyn cyrraedd y targed ar gyfer 2030 a gytunwyd gan y Cyngor.
- Buddsoddiad o £250,000 ym mhroblem y Clefyd Coed Ynn. Byddai hyn yn gwneud taliad untro parhaol a nodwyd yng nghyllideb y llynedd.
- Yn sgil graddfa'r pwysau, a'r ffaith nad yw effaith Covid a Brexit wedi eu datrys, mae £683,000 o arian at raid wedi ei gynnwys.

Cyfanswm y pwysau a nodwyd uchod yw £9.903m. Mae effaith defnyddio £685,000 o arian yn 20/21 (a gafodd yr effaith o ohirio'r angen i nodi arbedion yn unig) yn golygu bod cyfanswm y diffyg yn £10.588m. Byddai angen setliad drafft o tua 8% er mwyn ariannu'r pwysau hyn i gyd. Mae'r setliad net +3.6% yn cynhyrchu £5.42m o refeniw ychwanegol, gan adael bwlch cyllido o £5.167m. Mae'r eitemau canlynol wedi eu cynnwys yn y cynigion er mwyn cau'r bwlch hwnnw:

- Mae Cyllidebau Incwm Ffioedd a Thaliadau wedi bod yn destun chwyddiant yn unol â'r polisi Ffioedd a Thaliadau a gytunwyd, sy'n gweld cynnydd o £0.462m mewn incwm allanol.
- Mae arbedion effeithlonrwydd gweithredol sy'n gyfanswm o £690,000 wedi eu nodi yn bennaf gan wasanaethau drwy gydol y flwyddyn ac o fewn cyfrifoldeb a ddirprwywyd i Benaethiaid Gwasanaeth mewn ymgynghoriad ag Aelodau Arweiniol.
- Mae arbedion o £0.781m hefyd wedi eu nodi sy'n newid darpariaeth gwasanaeth mewn ryw ffordd a chawsant eu rhannu mewn manylder gyda'r Cabinet a'r Cyngor yn sesiynau briffio mis Rhagfyr.
- 1% (£0.733m) Targed effeithlonrwydd ysgolion o Gyllidebau Dirprwyedig Ysgolion. Gan fod cyllidebau ysgolion wedi eu datganoli, y cyrff llywodraethu fydd yn penderfynu sut bydd yr arbedion yn cael eu cyflawni.
- Argymhellir bod Treth y Cyngor yn cynyddu 3.8% a fydd yn creu refeniw ychwanegol o £2.132m. Mae hyn yn cymharu â chynnydd y llynedd o 4.3% a 6.35% y flwyddyn cyn hynny.
- Yn olaf, mae Sylfaen Treth y Cyngor wedi cynyddu fwy na'r disgwyl eleni sy'n golygu y rhagwelir Treth y Cyngor ychwanegol o £369,000.

Yn ystod trafodaethau, codwyd y pwyntiau canlynol:

- Mynegodd y Cyngorydd Mabon ap Gwynfor ei bryder gan fod diffyg ymgynghori a thryloywder wedi bod gyda'r holl gynghorwyr yn ei farn ef. Cyflwynwyd papur y gyllideb mewn Cyfarfod Briffio am y Gyllideb ar 21 Rhagfyr 2020 a chafodd ei gyflwyno i'r Cabinet hefyd. Nododd y Cyngorydd ap Gwynfor nad oedd hyn yn caniatáu digon o amser i drafod y manylion yn llawn. Felly, cadarnhaodd y Cyngorydd ap Gwynfor na fyddai'n cefnogi Adroddiad y Gyllideb.
- Mynegodd y Cyngorydd Glenn Swingler ei fod yn cytuno â'r Cyngorydd Mabon ap Gwynfor. Mynegodd y Cyngorydd Swingler ei bryder hefyd am faint y cynnydd yn Nhreth y Cyngor ac nid oedd yn cytuno â'r cynnig y dylai ysgolion wneud 1% o arbedion.
- Mynegodd y Cyngorydd Paul Penlington ei fod yn cytuno â'r Cyngorydd Mabon ap Gwynfor. Yna gofynnodd y Cyngorydd Penlington beth fyddai effaith Brexit. Cadarnhaodd yr Aelod Arweiniol Cyllid nad oes modd gwybod beth fydd effaith Brexit ar hyn o bryd, os byddai unrhyw effaith o gwbl.
- Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid ac Eiddo ei fod wedi mynychu'r Fforwm Cyllideb Ysgolion a rhoddodd wybodaeth lawn am yr arbedion sydd eu hangen.

Yn dilyn trafodaeth, cynigiodd y Cyngorydd Julian Thompson-Hill argymhelliad y Gyllideb ac eiliwyd gan y Cyngorydd Richard Mainon.

Ar y pwynt hwn, gofynnodd y Cyngorydd Paul Penlington am bleidlais wedi'i chofnodi. Roedd angen mwy nag un o bob chwech o'r rhai a oedd yn bresennol i alluogi pleidlais wedi'i chofnodi a nododd wyth aelod y byddai'n well ganddynt gael pleidlais wedi'i chofnodi.

Felly, cynhaliwyd pleidlais wedi'i chofnodi.

Roedd y rhai a bleidleisiodd o blaid Adroddiad y Gyllideb fel a ganlyn:

Cynghorwyr – Jeanette Chamberlain-Jones, Ellie Chard, Ann Davies, Gareth Lloyd Davies, Hugh Evans, Peter Evans, Bobby Feeley, Tony Flynn, Rachel Flynn, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Hugh Irving, Alan James, Brian Jones, Tina Jones, Geraint Lloyd Williams, Richard Mainon, Christine Marston, Barry Mellor, Melvyn Mile, Merfyn Parry, Anton Sampson, Peter Scott, Tony Thomas, Andrew Thomas, Julian Thompson-Hill, Joe Welch, Cheryl Williams, Huw Williams a Mark Young.

Roedd y rhai a bleidleisiodd yn erbyn Adroddiad y Gyllideb fel a ganlyn:

Cynghorwyr – Mabon ap Gwynfor, Paul Penlington, Arwel Roberts, Glenn Swingler, Rhys Thomas ac Emrys Wynne

Roedd y rhai a wnaeth ymatal rhag pleidleisio fel a ganlyn:

Cynghorwyr - Meirick Lloyd Davies ac Eryl Williams

**PENDERFYNWYD** bod y Cyngor yn:

- *nodu effaith Setliad Drafft Llywodraeth Leol 2021/22.*
- *cymeradwyo'r cynigion a amlinellwyd yn Atodiad 1, a manylwyd yn Adran 4, er mwyn cwblhau'r gyllideb ar gyfer 2021/22.*
- *cymeradwyo'r cynnydd cyfartalog o 3.8% a gynigiwyd yn Nhreth y Cyngor.*
- *dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Cyllid ac Eiddo mewn ymgynghoriad â'r Aelod Arweiniol Cyllid i addasu'r defnydd o arian sydd wedi'i gynnwys yng nghynigion y gyllideb o hyd at £500,000 os oes yna newid rhwng ffigyrau'r setliad drafft a'r setliad terfynol er mwyn gallu gosod Treth y Cyngor yn brydlon.*
- *cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les.*

## 6 CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH Y CYNGOR 2021/2022

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, adroddiad Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor 2021/2022 (a ddisbarthwyd ymlaen llaw).

Roedd Deddf Diwygio Lles 2012 yn cynnwys darpariaethau i ddiddymu budd-dal treth y cyngor ar ei ffurf bresennol ar draws y DU. Ar 31 Mawrth 2013 daeth budd-dal treth y cyngor i ben a throsglwyddwyd y cyfrifoldeb dros ddarparu cefnogaeth ar gyfer treth y cyngor, a'r cyllid sy'n gysylltiedig â hynny, i Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol yng Nghymru, wedi cyflwyno cynllun newydd i ddarparu cymorth treth y cyngor a fabwysiadwyd gan y Cyngor ym mis Ionawr 2013. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cwblhau'r ddwy set o reoliadau ar 2 Rhagfyr 2019, ac roedd angen mabwysiadu'r Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor newydd a Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 a diwygiadau i Reoliadau 2020 erbyn 31 Ionawr 2021.

Cynigiodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill y dylid derbyn adroddiad Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor 2021/2022, eiliwyd gan y Cynghorydd Martyn Holland.

Cynhaliwyd pleidlais a chytunwyd yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD y byddai'r Aelodau yn:**

- mabwysiadu Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor a Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013, a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygiad) 2021, o ran blwyddyn ariannol 2021/22.
- cymeradwyo elfennau dewisol y cynllun, a ddangosir yn adran 4.4, ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22.

**Ar y pwynt hwn (11.25am) cafwyd egwyl o 20 munud.**

**Ailddechreuodd y cyfarfod am 11.45am.**

## **7 CYFLOG BYW GWIRIONEDDOL**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, adroddiad y Cyflog Byw Gwirioneddol (a ddosbarthwyd ymlaen llaw).

Gwnaeth y Cyngor Sir ystyried goblygiadau talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn Rhagfyr 2018 yn wreiddiol ac yna yn Ionawr 2020 yn dilyn y trafodaethau tâl cenedlaethol. Yna gofynnodd y Cyngor am adroddiad pellach yn Ionawr 2021 i ystyried y sefyllfa bresennol ac, os oedd gwahaniaeth rhwng y Dyfarniad Cyflog Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Gwirioneddol, a ddylid talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'w staff yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Ceir dwy lefel o gyflog byw. Y Cyflog Byw Cenedlaethol a osodir gan y Llywodraeth ac sy'n ofynnol i bob cyflogwr ei dalu yn ôl y gyfraith, a'r Cyflog Byw Gwirioneddol sy'n cael ei asesu a'i osod gan Sefydliad y Cyflog Byw Gwirioneddol ym mis Tachwedd bob blwyddyn.

Roedd y dyfarniadau cyflog diweddar ym maes llywodraeth leol wedi ceisio sicrhau y byddai'r graddau cyflog isaf yn cael eu talu'n uwch na chyfradd y cyflog byw gwirioneddol. Mae cynnydd pellach yn lefel y cyflog byw gwirioneddol wedi golygu bod Gradd 1 a phwynt isaf Gradd 2 o dan y gyfradd honno. Mae gan y Cyngor ar hyn o bryd 725 aelod o staff sy'n derbyn cyflog is na lefel bresennol y cyflog byw gwirioneddol.

Roedd gan gyflogwyr chwe mis ar ôl y cyhoeddiad ym mis Tachwedd i weithredu'r cynnydd yn lefel y cyflog byw gwirioneddol, a chan ystyried sefyllfa ariannol ehangach y Cyngor yn sgil Covid, byddai'n gosod pwysau ychwanegol pe bai'n cael ei roi ar waith eleni. Felly, nodwyd y byddai'n fanteisiol i ddefnyddio'r cyfnod chwe mis a'i roi ar waith yn y flwyddyn ariannol nesaf, gan ystyried y dyfarniad cyflog cenedlaethol.

Yn dilyn trafodaeth fer, cynigiodd y Cynghorydd Graham Timms argymhellion pellach fel a ganlyn:

- (i) Ôl-ddyddio swm y Cyflog Byw Gwirioneddol i Ebrill 2020 i'r rhai a fethodd yn y fargen gyflogau ddiwethaf, ar gost o tua £17,000 y flwyddyn
- (ii) Ym mlwyddyn ariannol 2021/2022 bod Cyngor Sir Ddinbych yn talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol fel y'i gosodwyd ym mis Tachwedd 2020 i'r holl staff a fyddai'n is nag ef a byddai hynny'n costio £37,500.
- (iii) Cynnig bod yr Aelod Arweiniol Cyllid yn dod ag adroddiad i'r Cyngor gyda chostau a map cynllun o sut gallai'r Cyngor fod yn Gyflogwr Achrededig y Cyflog Byw Gwirioneddol.

Cynigiodd y Cynghorydd Graham Timms yr argymhellion ychwanegol, eiliwyd gan y Cynghorydd Barry Mellor.

Esboniodd y Rheolwr Adnoddau Dynol Strategol y gallai'r ail argymhelliad godi problemau rhwng Graddau gan y byddai'n effeithio ar berthynoledd cyflogau a gallai greu goblygiadau posibl o ran cyflogau cyfartal. Byddai'n rhaid gwneud gwaith i asesu'r risg i'r Cyngor cyn cytuno ar hyn.

Cytunodd yr Aelodau fod angen i'r swyddogion gyfrifo beth fyddai'r goblygiadau ariannol yn 2021/2022 a fyddai'n dibynnu ar ddyfarniadau cyflog, y gellid dod i gytundeb yn eu cylch yn ystod y cyfnod hwnnw, neu beidio.

Felly, cytunwyd y dylid cynnal pleidlais ar y ddau argymhelliad canlynol:

- (i) Holl weithwyr y cyngor i dderbyn y cyflog byw gwirioneddol ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/2021 a fyddai'n golygu ôl-ddyddio cyflog y rhai sydd ar bwynt 1 y golofn gyflog sy'n derbyn £9.25 yr awr, i fyny i £9.30 yr awr, a byddai hyn yn costio £17,500, a
- (ii) Bod yr Aelod Arweiniol yn dod ag adroddiad yn ôl i'r Cyngor gyda chostau a map cynllun o sut gallai'r Cyngor ddod yn gyflogwr achrededig y cyflog byw gwirioneddol.

Gwnaeth y Cynghorwyr Graham Timms a Barry Mellor, y cynigydd a'r eilydd gwreiddiol, gytuno ar hyn.

Cynhaliwyd pleidlais ar y diwygiad i'r argymhelliad a chytunwyd arno yn unfrydol.

Felly, ar ôl cytuno ar y diwygiad, cynhaliwyd pleidlais ar yr argymhelliad gwreiddiol a chytunwyd arno yn unfrydol.

**PENDERFYNWYD:**

- (i) *Holl weithwyr y Cyngor i dderbyn y cyflog byw gwirioneddol ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/2021 a fyddai'n golygu ôl-ddyddio cyflog y rhai sydd ar bwynt 1 y golofn gyflog sy'n derbyn £9.25 yr awr, i fyny i £9.30 yr awr, a byddai hyn yn costio £17,500.*
- (ii) *Bod yr Aelod Arweiniol yn dod ag adroddiad yn ôl i'r Cyngor gyda chostau a map cynllun o sut gallai'r Cyngor ddod yn gyflogwr achrededig y cyflog byw gwirioneddol.*

## 8 RHYBUDD O GYNNIG

Cyflwynodd y Cynghorydd Glenn Swingler y Rhybudd o Gynnig canlynol ar ran Grŵp Plaid ar gyfer sylw'r Cyngor Llawn:

Bod Cyngor Sir Ddinbych yn:

Galw am ohirio dyddiad y penderfyniad ar y bwriad i ailstrwythuro'r Gwasanaeth Digartrefedd a cholli 9 swydd o 1 Chwefror 2021 nes bydd un o Bwyllgorau Craffu y cyngor wedi archwilio'r rhesymau dros y gwaith ailstrwythuro mewnol sylweddol hwn sydd wedi ei gynnig.

Yn dilyn trafodaeth, cadarnhaodd y Cynghorydd Glenn Swingler y byddai'n tynnu'r Rhybudd o Gynnig yn ei ôl.

## 9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd raglen gwaith i'r dyfodol y Cyngor (a ddsbarthwyd ymlaen llaw).

Cyfarfodydd i'w cadarnhau yn y dyfodol:

- (i) Cyflogwr Achrededig y Cyflog Byw Gwirioneddol
- (ii) Llifogydd – Adroddiad yr Ymchwiliad

***PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, y dylid cymeradwyo a nodi rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cyngor.***

**Daeth y cyfarfod i ben am 1.10pm.**